# Cwmlai After School Club Ltd. (Rhondda Cynon Taf)

*Supporting with registering with Companies House, Care Inspectorate Wales and Tax-Free Childcare.*

Cwmlai After School Club Ltd is fully inclusive providing after school childcare for families of children attending Cwmlai Primary School. The support given through Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs' National Lottery Project supported the governance, quality, and affordability of a setting which provides child-led, play-rich childcare in the community.

In September 2022, the club was moved to a new room and the deputy manager Leanne took over the running of the club. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs was contacted to support the new venture and through initial discussions, Leanne decided that the club needed stronger governance to limit liability.

The Childcare Business Development Officer Paula went through the different types of business structures so that Leanne could make an informed decision. Leanne decided on a Limited Liability Company and Paula supported with an action plan so that Leanne had a step by step guide to follow. In October 2022, the club was successfully incorporated with Companies House.

> "I did not know the best route to take for the after-school club and what would be best for the setting. But [Paula] provided me with all the information on the different types of business it could be (from profitable to charitable) and helped me to make the right choice."

To register with CIW, Leanne and Paula discussed the policies and procedures which needed updating, whilst also adding new ones. Paula sent an action plan so that Leanne knew what steps to take to ensure a quick and efficient registration. The new structure was registered with CIW in January 2023.

By March 2023 the club was also supported to register for Tax-Free childcare, after the financial support parents would gain was discussed. This support is particularly important when families are struggling with the cost of living increases and more the affordable fees boost the club's sustainability.

Speaking about the support received from Paula, Leanne said:

> "Your support has been amazing throughout. From the first meeting, you have given me valuable information. From helping me decide the best route to take for the business, to making sure that all my policies and procedures are up to date, how to register and everything that I needed to register for. Without your support it truly would have been a lot harder for me to navigate my new role. Having a development officer helps you, as you know that you are running things correctly and helps you get where you need to be with the business. The support is invaluable to a club, I couldn't have done it without the support and guidance from Clybiau."

The tailored business support has provided

- Limited liability for the owner.
- Improved governance as new/updated policies and procedures were reviewed in line with the latest governmental guidance.
- Quality childcare for families accessing a service compliant with CIW regulations.
- Affordable childcare by supporting parents with childcare costs.

Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.



Registered Office: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW.
T: 029 2074 1000 Email: info@clybiauplantcymru.org
Company limited by guarantee 4296436. Registered charity 1093260

# Clwb Ôl-ysgol Cwmlai Cyf. (Rhondda Cynon Taf)

*Cefnogi gyda chofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Plant Di-dreth.*

Mae Cwmlai After School Club Ltd yn un cwbl gynhwysol, sy’n darparu gofal plant ôl-ysgol i deuluoedd plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cwmlai. Mae'r cymorth a roddwyd trwy Brosiect Lotri Genedlaethol, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cefnogi llywodraethu, ansawdd a fforddiadwyedd lleoliad sy'n darparu gofal plant dan arweiniad plant, gofal plant sy'n llawn chwarae, yn y gymuned.

Ym mis Medi 2022, symudodd y clwb i ystafell newydd a chymerwyd drosodd y gwaith o redeg y clwb gan Leanne, y dirprwy reolwr. Cysylltwyd â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gefnogi'r fenter newydd a thrwy gynnal trafodaethau cychwynnol , penderfynodd Leanne fod angen llywodraethiad cryfach ar y clwb er mwyn cyfyngu ar ei atebolrwydd.

Fe aeth y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Paula, drwy'r gwahanol fathau o strwythurau busnes er mwyn i Leanne wneud penderfyniad gwybodus. Penderfynodd Leanne ar Gwmni Atebolrwydd Cyfyngedig a chefnogodd Paula â chynllun gweithredu fel bod Leanne yn cael canllaw cam-wrth-gam i’w ddilyn. Ym mis Hydref 2022, cafodd y clwb ei ymgorffori'n llwyddiannus gyda Thŷ'r Cwmnïau.

> "Doeddwn i ddim yn gwybod y llwybr gorau i'w gymryd i'r clwb ar ôl ysgol a beth fyddai orau i'r lleoliad. Ond rhoddodd [Paula] yr holl wybodaeth i mi am y gwahanol fathau o fusnes y gallai fod (o fusnes er-elw i un elusennol) a'm helpu i wneud y dewis iawn."

I gofrestru gyda AGC, trafododd Leanne a Paula y polisïau a'r gweithdrefnau yr oedd angen eu diweddaru, gan hefyd ychwanegu rhai newydd. Anfonodd Paula gynllun gweithredu er mwyn i Leanne wybod pa gamau i'w cymryd i sicrhau cofrestriad cyflym ac effeithlon. Cafodd y strwythur newydd ei gofrestru gydag AGC ym mis Ionawr 2023.

Erbyn mis Mawrth 2023 roedd y clwb hefyd yn cael ei gefnogi i gofrestru ar gyfer gofal plant di-dreth, ar ôl trafod y cymorth ariannol y byddai rhieni yn ei gael. 'Mae’r gefnogaeth hon yn arbennig o bwysig pan fo teuluoedd yn ei chael yn anodd gyda'r cynnydd mewn costau byw, ac mae’r ffioedd mwy fforddiadwy yn rhoi hwb i gynaliadwyedd y clwb.

Wrth siarad am y gefnogaeth a gafodd Paula, dywedodd Leanne:

> "Mae eich cefnogaeth wedi bod yn anhygoel drwyddi draw. O'r cyfarfod cyntaf, rydych wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i mi. O fy helpu i benderfynu ar y llwybr gorau i'w gymryd ar gyfer y busnes, i sicrhau bod fy holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, sut i gofrestru a phopeth oedd ei angen arnaf i gofrestru. Heb eich cefnogaeth byddai wir wedi bod yn llawer anoddach i mi lywio drwy fy rôl newydd. Mae cael swyddog datblygu yn eich helpu, gan eich bod yn gwybod eich bod yn rhedeg pethau'n iawn, ac mae’n eich helpu i gyrraedd lle mae angen i chi fod gyda'r busnes. Mae'r gefnogaeth yn amhrisiadwy i glwb, ni allwn fod wedi gwneud hyn heb y gefnogaeth a'r arweiniad a gefais gan Clybiau."

Mae'r cymorth busnes pwrpasol wedi darparu

- Atebolrwydd cyfyngedig i'r perchennog.
- Gwell llywodraethiad wrth i bolisïau a gweithdrefnau newydd/wedi'u diweddaru gael eu hadolygu yn unol â'r canllawiau llywodraethol diweddaraf.
- Gofal plant o ansawdd i deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaeth sy’n cydymffurfio â rheoliadau AGC.
- Gofal plant fforddiadwy drwy gefnogi rhieni gyda chostau gofal plant.

Cysylltwch â ni am wybodaeth am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei chynnig i'ch clwb.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Swyddfa Gofrestredig: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ’r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000 | Ebost: info@clybiauplantcymru.org
Cwmni a gyfyngir trwy warant 4296436. Elusen gofrestredig 1093260

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND